# Cronfa Ddatblygu Cymru Greadigol 2023 – 2025

## NODIADAU CANLLAW ALLANOL

**Mae strwythur y canllawiau hyn fel a ganlyn:**

**1.0 Trosolwg o'r Gronfa**

- **1.1 Diben y Gronfa**
- **1.2 Cefndir**
- **1.3 Y Broses Ymgeisio**
- **1.4 Amserlen**
- **1.5 Meini prawf allweddol ar gyfer ymgeiswyr**
- **1.6 Cymhwysedd**
- **1.7 Costau Cymwys a Chostau Anghymwys**
- **1.8 Allbynnau a Chanlyniadau**

**2. Y Broses Hawlio ac Amodau'r Gronfa**

- **2.1 Yr Amserlen Hawlio**
- **2.2 Rheoli Cymhorthdal yn y DU**
- **2.3 Cyhoeddusrwydd**
- **2.4 Y Gymraeg**
- **2.5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**
- **2.6 Hysbysiad Preifatrwydd**

Bwriad y nodiadau canllaw hyn yw eich helpu i gwblhau eich cais am gyllid gan Gronfa Ddatblygu Cymru Greadigol.

### 1.1 Diben y Gronfa

Mae cyllid datblygu wedi'i gynllunio i alluogi eich busnes i gyrraedd sefyllfa lle mae'n ariannu ei dwf parhaus ei hun. Ni fwriedir i gyllid gael ei ddarparu dro ar ôl tro – yn hytrach, y bwriad yw bod y cyllid yn cael ei ddefnyddio i'ch galluogi i greu ffrwd gyllid barhaus, gynaliadwy ar gyfer eich busnes, ac i greu effaith gadarnhaol, hir dymor ar eich sector.

### Y Sector Teledu ac Animeiddio Masnachol

- Darparu cymorth ariannol i alluogi cwmnïau cynhyrchu lleol i ddatblygu prosiectau a chysyniadau'n llawn, er mwyn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd y prosiect yn cael ei gomisiynu, ei gymeradwyo a'i gynhyrchu.
- Cefnogi cwmnïau lleol i gadw eiddo deallusol a fydd, yn ei dro, yn galluogi twf pellach.

Mae'r mathau o brosiectau sydd wedi derbyn cymorth yn y gorffennol yn cynnwys datblygu:

- rhaglen ddogfen hanesyddol a ddosbarthwyd yn rhyngwladol
- rhaglen ar fformat adloniant ffeithiol yn ystod oriau brig y dydd
- cyfres o animeiddiadau cyn-ysgol
- cyfres wedi'i sgriptio

nodwch fod gennym ddiddordeb penodol (ond nid yn unig) mewn prosiectau datblygu di-sgript a fformatau adloniant ar gyfer y rownd gyllid hon.

**Y Sector Gemau a Thechnoleg Ymgolli:**

- Darparu cymorth ariannol i ddatblygu eiddo deallusol newydd mewn gemau fideo a chymwysiadau technoleg ymgolli.
- Galluogi busnesau i ddatblygu'r cysyniadau i lefel lle y gallant farchnata'r prosiectau hyn er mwyn ennill buddsoddiadau masnachol, pan fyddai gwneud hynny wedi bod yn anodd fel arall heb y cyllid datblygu.
- Yn y pen draw cefnogi cwmnïau lleol i ddatblygu a chadw eiddo deallusol ac i fanteisio ar gyfleoedd i dyfu. Bydd hyn yn ei dro yn galluogi twf pellach.

Mae'r mathau o brosiectau sydd wedi derbyn cymorth yn y gorffennol yn cynnwys:

- Segment ar gyfer gêm fideo newydd
- Cymhwysiad realiti estynedig
- Gêm antur â stori fyw ryngweithiol
- Gêm ymgolli realiti rhithwir, aml-chwaraewr gydag e-chwaraeon integreiddiedig ar gyfer digwyddiadau ac adloniant

## 1.2 Cefndir

Mae'r Diwydiannau Creadigol wedi bod yn un o rannau economi Cymru sy'n tyfu gyflymaf ers bron i ddegawd, gan greu swyddi a chyfoeth, cyfrannu at frand cenedlaethol cryf a hyrwyddo Cymru i'r byd.  Mae Cymru Greadigol yn asiantaeth fewnol o fewn Llywodraeth Cymru a sefydlwyd i helpu'r diwydiannau creadigol yng Nghymru i dyfu ymhellach ac i gynnig gwasanaeth symlach, dynamig ac arloesol i'r sector.

Bydd ail rownd Cronfa Ddatblygu Cymru Greadigol yn cefnogi prosiectau o fewn y sectorau teledu, animeiddio masnachol, gemau fideo a thechnoleg ymgolli.

Anelir y cyllid hwn at fusnesau yng Nghymru sy'n datblygu eiddo deallusol sy'n seiliedig ar gynnwys i'w ryddhau'n fasnachol yn y Diwydiannau Creadigol. Ni fwriedir i'r rownd hon gefnogi prosiectau yn y sector technoleg ehangach.

Mae £1 miliwn ar gael ar gyfer prosiectau yn y rownd ariannu hon. Bydd uchafswm o £25,000 ar gael ar gyfer prosiectau teledu, ac uchafswm o £35,000 ar gael ar gyfer prosiectau digidol, yn dibynnu ar faint y prosiect.

### 1.3 Y Broses Ymgeisio

Bydd yr Alwad hon am gynigion am gyllid yn dechrau ddydd Gwener 14 Gorffennaf 2023, ac yn cau i geisiadau ddydd Gwener 8 Medi 2023 am hanner dydd. Nid ystyrir unrhyw geisiadau sy'n cyrraedd yn hwyr.

I ofyn am ffurflen gais anfonwch e-bost at CymorthAriannuCymruGreadigol@llyw.cymru

Noder – nid yw trafod eich prosiect ag aelod o'r tîm yn awgrymu y bydd eich gynnig yn cael ei gymeradwyo neu ei asesu. Mae hwn yn gynllun cystadleuol lle bydd pob prosiect yn cael ei asesu a'i sgorio yn erbyn meini prawf safonol.

Bydd angen i ymgeiswyr ateb pob rhan o'r ffurflen gais a chynnwys yr holl wybodaeth ategol y gofynnir amdani, gan gynnwys manylion ariannol llawn a'r amserlenni talu ar gyfer y grant. Dylid cwblhau ac anfon ffurflenni cais at CymorthAriannuCymruGreadigol@llyw.cymru

Cynhelir gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar gyfer pob cais. Bydd y rhain yn cynnwys adolygiad o'ch rhagamcaniadau ariannol, gwiriad twyll, a gwiriadau ar Gyfarwyddwyr eich cwmni. Os ydych yn gysylltiedig â busnes sydd mewn dyled i Lywodraeth Cymru, mae'n annhebygol y byddwch yn gallu gwneud cais am ragor o gyllid, a dylech drafod hyn â ni cyn gwneud cais.

Gofynnir ichi ddewis nifer o allbynnau ar gyfer eich prosiect ar y ffurflen gais. Caiff y rhain eu mesur yn ffurfiol yn ystod y prosiect ac wedyn am hyd at ddwy flynedd ar ôl i'r prosiect ddod i ben.

Mae hwn yn grant cystadleuol ac ni chaiff pob cais ei gymeradwyo. Ni ddylech ddechrau ar y prosiect nes bod eich cais wedi cael ei gymeradwyo a bod llythyr cynnig wedi cael ei gyhoeddi. Os byddwch yn gwneud hynny, mae'n bosibl y byddwch yn gwneud eich cais yn gwbl annilys, hyd yn oed os bydd yn llwyddiannus.

### Gwerthuso Prosiectau

Dyfernir cyllid gan Gymru Greadigol i brosiectau sy'n cyd-fynd â'r egwyddorion allweddol canlynol:

| **Egwyddorion allweddol ar gyfer cyllid gan Gymru Greadigol** : |
|---|
| Dylai'r cyllid a ddyfernir i fusnesau wneud y canlynol: |
| **Cydweddu'n strategol**<br>Cyflawni ein blaenoriaethau ar gyfer y diwydiannau creadigol yng Nghymru – Bydd cyllid yn cael ei gynllunio i gyflawni uchelgeisiau Cymru Greadigol ar gyfer y diwydiannau creadigol, a'r blaenoriaethau a nodir yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru. Bydd yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu sgiliau a thalent, amrywiaeth a chynhwysiant yn eu hystyr ehangaf, gwaith teg a chynaliadwyedd, a bydd yn hyrwyddo ein diwylliant a'r Gymraeg. Caiff cyllid ei flaenoriaethu ar gyfer y prosiectau hynny |

| |
|---|
| sy'n gwneud gwahaniaeth i dirwedd y diwydiannau creadigol yng Nghymru dros y tymor canolig i'r hirdymor |
| **Manteisio i'r eithaf ar y manteision i Gymru, gan gynnwys manteision economaidd.** Bydd cyllid yn cael ei dargedu at brosiectau sy'n sicrhau'r enillion mwyaf posibl o'r buddsoddiad, er mwyn sicrhau bod cyllidebau cyfyngedig yn sicrhau'r gwerth mwyaf posibl i Gymru. |

Dylech deilwra eich cais i ddangos sut mae'r egwyddorion uchod yn cael eu bodloni.

Bydd pob prosiect yn cael ei werthuso mewn dau gam:

- **Y cam cyntaf** – cynhelir gwiriadau i sicrhau eich bod wedi bodloni'r holl feini prawf cymhwysedd sylfaenol, gan gynnwys sicrhau bod y prosiect yn cyd-fynd ag egwyddorion allweddol ein cyllid, fel y'u hamlinellir yn y tabl uchod. Bydd ceisiadau / prosiectau nad ydynt yn bodloni'r holl wiriadau cymhwysedd (gweler adran 1.5), neu nad ydynt yn bodloni ein hamcanion strategol ar gyfer cyllid, yn cael eu gwrthod.

- **Yr ail gam** – bydd ceisiadau sydd wedi bodloni'r holl feini prawf cymhwysedd uchod, ac sy'n cyd-fynd â'n hegwyddorion ariannu allweddol, yn cael eu gwerthuso gan banel asesu yn unol â'r meini prawf gwerthuso yn Atodiad 1. Argymhellir prosiectau sy'n ennill sgôr basio ofynnol i'w cymeradwyo gan y Gweinidog, yn amodol ar argaeledd cyllideb (mewn sefyllfa lle mae nifer o brosiectau'n ennill sgôr sy'n uwch na'r sgôr ofynnol, ond nid oes cyllideb ar gael i gefnogi pawb, bydd y prosiectau sydd wedi ennill y sgoriau uchaf yn cael y cyllid) .

### Cymeradwyo Prosiectau

- Bydd pob cynnig a asesir yn cael ei gyflwyno i gael cymeradwyaeth derfynol gan Weinidogion Cymru
- Ar ôl i'r cynigion gael eu hystyried gan Weinidogion, hysbysir ymgeiswyr am y penderfyniad terfynol ac anfonir llythyrau cynnig grant at yr ymgeiswyr llwyddiannus
- Bydd angen llofnodi'r llythyr cynnig ac anfon copi at Lywodraeth Cymru cyn y gellir dechrau ar y prosiect

### Apelio

Cronfa yn ôl disgresiwn yw Cronfa Ddatblygu Cymru Greadigol ac nid oes proses apelio.

Hysbysir ymgeiswyr aflwyddiannus drwy e-bost yn dilyn penderfyniad y panel asesu.

## 1.4 Amserlen

Bydd y gronfa'n agor ar gyfer ceisiadau ar ddydd Gwener 14 Gorffennaf 2023, ac yn cau ar ddydd Gwener 8 Medi 2023 am hanner dydd.

Bydd y cyfnod ariannu cymwys yn dechrau ar y dyddiad cymeradwyo ar y llythyr cynnig grant ac yn dod i ben ar 31 Mawrth 2025.

Nid ystyrir unrhyw geisiadau sy'n cyrraedd yn hwyr.

### 1.5 Meini prawf allweddol ar gyfer ymgeiswyr

- Rhaid i ymgeiswyr fod yn sefydliadau sy'n gweithredu yn y sector creadigol yng Nghymru.
- Rhaid i ymgeiswyr fod â swyddfa wedi'i chofrestru yng Nghymru a rhaid eu bod yn gweithredu ac yn cyflogi staff yng Nghymru.
- Rhaid i ymgeiswyr allu cyflwyno cyfrifon wedi'u hardystio'n llawn yn annibynnol neu ddatganiadau ariannol wedi'u harchwilio ar gyfer o leiaf un flwyddyn (nid oes rhaid ichi fod wedi'ch cofrestru ar gyfer TAW os yw cyfanswm eich trosiant islaw'r trothwy cofrestru).
- Ni fyddwn yn ystyried ceisiadau gan fentrau newydd ond lle mae gan sylfaenwyr neu gyfarwyddwyr cwmni hanes y gellir ei ddangos o brosiectau mewn maes tebyg.
- Rhaid i geisiadau ddangos gwerth da am arian, a bydd hyn yn rhan o'r asesiad. Gwnewch gais am yr hyn sydd ei angen arnoch yn unig ac nid yr uchafswm, oni bai bod angen yr uchafswm.
- Bydd disgwyl i sefydliadau neu fusnesau sy'n derbyn cymorth drwy'r cynllun hwn gydymffurfio ag ethos ac egwyddorion y Contract Economaidd ehangach (gweler y ddolen).

### 1.6 Cymhwysedd

**<u>Pwy gaiff wneud cais?</u>**

Y Sector Teledu ac Animeiddio Masnachol

- Cwmnïau cynhyrchu annibynnol a leolir yng Nghymru  a rhaid eu bod yn cyflogi staff yng Nghymru.

- Rhaid i gwmnïau fod â hanes (h.y. wedi cynhyrchu prosiect teledu blaenorol yn yr un genre sydd wedi cael ei ddosbarthu'n fasnachol o fewn y tair blynedd diwethaf).  Bydd hanes unigol cyfarwyddwr / prif swyddog gweithredol a/neu gyfranddaliwr y cwmni hefyd yn dderbyniol.

- Rhaid i gyfeiriad prif swyddfa cwmnïau sy'n gwneud cais fod yng Nghymru.

- Rhaid i gwmnïau sy'n gwneud cais feddu ar hawliau mwyafrifol y prosiect (yn achos cyd-gynyrchiadau, rhaid iddynt fod yn berchen ar o leiaf 51% o'r hawliau).

- Caiff y cwmni sy'n gwneud cais fod yn unrhyw faint, ond rhaid iddo fod yn gwmni cynhyrchu annibynnol sydd â chod SIC (Dosbarthiad Diwydiannol Safonol) sy'n dangos mai cynhyrchu yw ei brif weithgaredd.

- Ni allwn gefnogi ceisiadau gan unigolion oni bai bod ganddynt gwmni sefydledig sydd â chod SIC perthnasol.  Dim ond perchnogion cyfreithiol y cwmni cynhyrchu fydd yn gymwys i wneud cais am y cyllid hwn.

Gemau a Thechnoleg Ymgolli

- Cwmnïau a leolir yng Nghymru sy'n creu cynnwys digidol masnachol ar ffurf gemau fideo a thechnoleg ymgolli.

- Rhaid i gwmnïau sy'n gwneud cais fod â hanes o ddatblygu cynnwys digidol, neu fod â hanes o ddatblygu cynnwys traddodiadol a bod wedi nodi llwybr newydd i gyrraedd y farchnad neu wasanaethau newydd. Bydd hanes unigol cyfarwyddwr / prif swyddog gweithredol a/neu gyfranddaliwr y cwmni hefyd yn dderbyniol.

- Rhaid i gyfeiriad prif swyddfa cwmnïau sy’n gwneud cais fod yng Nghymru a rhaid eu bod yn cyflogi staff yng Nghymru.

- Pan gaiff eiddo deallusol ei ddatblygu a'i gadw, rhaid i ymgeiswyr fod yn berchen ar o leiaf 51% o'r hawliau.
- Caiff y cwmni fod yn unrhyw faint, ond rhaid mai prif weithgaredd y cwmni yw cynhyrchu cynnwys digidol yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru.

- Nid yw'r gronfa hon wedi'i chynllunio ar gyfer mentrau 'meddalwedd fel gwasanaeth' neu 'dechnoleg' cyffredinol y tu allan i'r Diwydiannau Creadigol, h.y. meddygol neu addysg.

**Amodau Cyffredinol gwneud cais:**

Fel un o amodau’r cyllid, byddwch yn cytuno i ymgymryd â hyd at dair blynedd o gyhoeddusrwydd ar y cyd â Chymru Greadigol, a gofynnir ichi ddarparu cyflenwad o ddelweddau a fideos, ynghyd â’r hawliau perthnasol, o'r prosiect inni eu defnyddio yn y wasg ac ar gyfer cyhoeddusrwydd.

Hoffem ychwanegu ein holl ymgeiswyr at ein cronfa ddata farchnata i sicrhau eich bod yn derbyn gwybodaeth amserol am opsiynau eraill ar gyfer cymorth gan Cymru Greadigol.

## <u>Pa fath o brosiectau rydym am eu gweld?</u>

### Yn gyffredin i bob cais

Byddwn yn rhoi blaenoriaeth i brosiectau sy’n gallu dangos y canlynol;

- Eu bod yn bodloni ein hegwyddorion ariannu allweddol ac yn meddu ar y potensial i greu twf hirdymor

Nid ydym am weld y math hwn o brosiectau:

- Prosiectau anfasnachol, trydydd sector neu brosiectau eraill yn y sector cyhoeddus
- Prosiectau sydd eisoes yn derbyn elfen sylweddol o arian cyhoeddus
- Prosiectau sydd wedi derbyn cymorth yn y gorffennol
- Prosiectau sy’n fenter gyntaf busnes newydd nad oes ganddo hanes
- Prosiectau sy'n cynnwys costau marchnata neu gyfalaf yn bennaf – rydym yn disgwyl i'r rhan fwyaf o'r prosiectau hyn gynnwys cryn amser staff wrth greu gwaith newydd

Mae prosiectau cymwys yn cynnwys; rhaglenni ffeithiol/dogfen, drama, animeiddiadau a chomedi y bwriedir eu darlledu ar y teledu.
Byddwn yn rhoi blaenoriaeth i brosiectau sy’n gallu dangos y canlynol:

**Teledu ac Animeiddio Masnachol – Meini Prawf Technegol**

**Hanfodol**

- Rhaid i’r prosiect fod i’w ddarlledu ar y teledu (Mae prosiectau cymwys yn cynnwys: rhaglenni ffeithiol/dogfen, drama, fformatau adloniant ysgafn, animeiddiadau a chomedi y bwriedir eu darlledu ar y teledu)
- Rhaid i’r prosiect fod yn rhaglen hyd llawn, nid rhaglen cynnwys byr
- Rhaid i’r ymgeisydd feddu ar hawliau mwyafrifol y prosiect

**Dymunol**

- Diddordeb cychwynnol gan ddarlledwyr a / neu ddosbarthwyr
- Prosiectau sy’n datblygu talent yng Nghymru
- Prosiectau sydd ag arwyddocâd diwylliannol
- Prosiectau sydd â’r potensial i gael eu dosbarthu yn rhyngwladol
- Prosiectau sydd â’r potensial ar gyfer ymelwa ymhellach ar eiddo deallusol (aml-blatfform), gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, Netflix, Amazon Prime a Disney+
- Prosiectau sy’n gallu nodi a mynd i'r afael â thangynrychiolaeth o flaen y camera a’r tu ôl iddo

**Gemau a Thechnoleg Ymgolli**

**Hanfodol**

- Prosiectau sydd â ffocws masnachol y mae ganddynt botensial ar gyfer buddsoddi pellach ar ddiwedd y gwaith datblygu
- Dylai prosiectau naill ai gael eu cwblhau a'u lansio (cynhyrchu refeniw) erbyn y dyddiad dod i ben, neu yn achos prototeip, fod yn barod i arddangos i nifer o

fuddsoddwyr posibl erbyn dyddiad penodol (a elwir yn aml yn 'sleisen fertigol').

- Eiddo deallusol a gedwir yng Nghymru yn achos prosiectau cynnwys, neu enillion masnachol sylweddol a gedwir yng Nghymru.
- Cynnyrch neu wasanaeth sy'n dangos rhagoriaeth o ran dylunio digidol, profiad y defnyddiwr a gweithredu.

**Dymunol**

- Prosiectau masnachol y mae cyhoeddwr wedi mynegi diddordeb cychwynnol ynddynt, neu sydd â thystiolaeth o lwybr arall i gyrraedd y farchnad* neu fuddsoddiad arall
- Arian cyfatebol
- Y potensial i ddatblygu'n gyflym, naill ai drwy ymelwa ar eiddo deallusol neu gyrraedd marchnad dorfol neu ailddefnyddio labeli gwyn
- Prosiectau sydd ag agwedd sy'n unigryw i Gymru neu sy'n arddangos llenyddiaeth, iaith neu ddiwylliant Cymru
- Y gallu i gael eu gwerthu mewn marchnadoedd rhyngwladol
- Datblygu talent yng Nghymru

* Ystyrir y canlynol yn dystiolaeth dda o lwybr i gyrraedd y farchnata:

- Diddordeb cychwynnol gan ddarlledwyr, cyhoeddwyr neu ddosbarthwyr yn y cysyniad penodol
- Buddsoddi ar y cyd wedi'i gadarnhau gan bartner sylweddol
- Sianel bresennol y gellir ei defnyddio i farchnata'r cynnyrch

Pa brosiectau nad ydym am eu gweld?

- Gwelliannau gweithredol i fusnesau sydd eisoes yn bodoli a ddylai fod yn rhan o 'fusnes beunyddiol' – gwefannau newydd, digideiddio neu awtomeiddio prosesau arferol ac ati.
- Prosiectau yr ystyrir yn 'dechnoleg' neu 'feddalwedd fel gwasanaeth' nad ydynt yn gysylltiedig â'r diwydiannau creadigol – ar gyfer yr alwad hon rydym yn gofyn am brosiectau sy'n datblygu cynnwys.
- Prosiectau sydd eisoes wedi bod yn destun cryn waith datblygu.

## <u>Dogfennau Ategol</u>

### Teledu ac Animeiddio Masnachol

Gofynnir i ymgeiswyr roi amlinelliad o'r prosiect, cyllideb ddatblygu fanwl a strategaeth ddatblygu sy'n cyd-fynd â'u prosiect yn ogystal â gwybodaeth am eu cynulleidfa a'u platfform arfaethedig.  Dylid hefyd nodi unrhyw ddiddordeb wedi'i fynegi gan ddarlledwr, dosbarthwr neu ariannwr.

### Gemau a Thechnoleg Ymgolli

Gofynnir i ymgeiswyr ddarparu cynllun llif arian ar gyfer y prosiect sy'n cynnwys costau adeiladu, a hefyd rhagamcaniadau ar gyfer gwerthiannau am 12 mis ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau.

Gofynnir i bob ymgeisydd ddarparu cyflwyniad gwerthu syml, gan gynnwys delweddau, fideo neu enghreifftiau eraill o gynnwys.

**Faint y cewch wneud cais amdano?**

Cewch wneud cais am gyllid gan Gronfa Ddatblygu Cymru Greadigol am hyd at uchafswm o £25,000 ar gyfer prosiectau teledu ac animeiddio masnachol, a hyd at £35,000 ar gyfer gemau a thechnoleg ymgolli, gan gydnabod cost uchel bresennol cyflogi staff datblygu technegol.

Ar gyfer y cynllun hwn nid oes angen unrhyw arian cyfatebol. Bydd Cymru Greadigol yn talu 100% o'r prosiect hyd at y grant uchaf y gellir ei ddyfarnu fesul prosiect. Fodd bynnag, croesawir unrhyw arian parod cyfatebol (nad yw'n dod o'r sector cyhoeddus) a geir, gan y bydd yn cynyddu'r effaith, yn galluogi ein cyllid i fynd ymhellach ac yn atgyfnerthu eich cais am gymorth.

Bydd costau datblygu'n cael eu talu am hyd at 18 mis yn unig. Ni fydd yn bosibl hawlio am gostau ôl-weithredol, nac ymestyn y prosiect y tu hwnt i'r amserlen honno.

Ni chaiff cwmnïau gyflwyno ond un cais i'r alwad am gynigion**.** Dylai ymgeiswyr sydd eisoes â chyllid ar waith ar gyfer prosiect parhaus ar wahân ymgynghori â Chymru Greadigol cyn cyflwyno cais i'r gronfa hon, gan ei fod yn bosibl na chaniateir y cais.

Nid oes rhaid ad-dalu'r cyllid, ond os na fodlonir targedau (h.y. nid yw'r cynnyrch wedi cael ei gwblhau, mae'r prosiect yn hwyr iawn neu nid yw gwybodaeth briodol am yr hawliad wedi cael ei chyflwyno) bydd y cyllid yn cael ei adennill).

Bydd pob cais yn cael ei ystyried yn unigol, a thelir y grant hwn yn ôl disgresiwn absoliwt Llywodraeth Cymru.

### 1.7 Costau Cymwys a Chostau Anghymwys

### Costau Anghymwys

- Gorbenion
- Dyled a thaliadau gwasanaethau dyled
- Taliadau llog
- Costau a ysgwyddir nad ydynt yn benodol i'r prosiect hwn
- Costau marchnata (dros 5% o werth y prosiect
- TAW y gellir ei hadennill
- Gwariant yr ystyrir ei fod yn ormodol neu'n angenrheidiol i'r prosiect
- Mynychu cynadleddau / gwyliau

### Teledu ac Animeiddio Masnachol

Unrhyw weithgareddau datblygu gan gynnwys:

- Costau ymchwil a rhagchwilio
- Cyflogau a chostau gweithwyr llawrydd
- Paratoi canllawiau triniaeth greadigol
- Datblygu sgriptiau a storïau
- Costau technegol a chynhyrchu
- Creu cyflwyniad gwerthu a /neu ddec h.y. triniaeth/gweledol (cymeriadau, amgylchedd a chefndiroedd)/prawf animeiddio/rîl arddangos
- Bwrdd darlunio a chostau animeiddio
- Costau cerddoriaeth a recordio
- Costau golygu
- Hawliau eiddo deallusol/cyfreithiol
- Marchnata cychwynnol o dan 5% o werth y prosiect
- Cyfieithu (os yw'n berthnasol)
- Ymchwil (os yw'n berthnasol)
- Paratoi cyllideb gynhyrchu
- Paratoi cynllun cyllid
- Gweithgareddau amserlennu cynyrchiadau
- Paratoi strategaeth farchnata
- Ffilmio ffilm hyrwyddo/beilot/Tâp Blasu neu *Sizzle Reel*
- Costau teithio a chynhaliaeth h.y. petrol, bwyd neu lety (os ydynt yn rhesymol ac yn gysylltiedig yn benodol â'r prosiect).

**Prosiectau gemau a thechnoleg ymgolli:**

- Cyn-gynhyrchu
- Dylunio cysyniadau – fideo o chwarae gêm/araith hyrwyddo
- Creu Dogfen Dylunio Gêm
- Ysgrifennu
- Prototeipio digidol
- Creu rhyngwyneb defnyddwyr a chynnwys / asedau dylunio graffeg
- Creu cynnwys / asedau gweledol 3D
- Datblygu / rhaglennu
- Dylunio / cynhyrchu sain
- Creu segment / enghraifft o gêm y gellir ei chwarae
- Profi a Sicrhau Ansawdd
- Marchnata cychwynnol o lai na 5% o gyfanswm gwerth y prosiect
- Hawliau eiddo deallusol / costau cyfreithiol
- Sgôr PEGI
- Costau teithio a chynhaliaeth h.y. petrol, bwyd neu lety (os ydynt yn rhesymol ac yn gysylltiedig yn benodol â'r prosiect)

Sylwer – Ni allwn dderbyn 'arall' fel disgrifiad o gostau / eitem linell mewn ceisiadau
**Yr hyn na fyddwn yn ei ariannu:**

- Unrhyw gostau cyfalaf megis datblygu neu ailwampio adeiladau ar raddfa fawr;
- Costau cychwyn, e.e. offer, swyddfeydd, costau recriwtio ac ati;
- Costau a ysgwyddwyd cyn dyddiad dyfarnu’r cyllid (ar ôl inni dderbyn y llythyr cynnig wedi’i lofnodi);
- Costau staff na ellir eu dangos gan wariant wedi'i dalu fel slipiau cyflog
- Costau diswyddo
- TAW y gellir ei hadennill; Dyled hanesyddol sylweddol (cyn 1 Ebrill 2023);
- Costau sy'n gysylltiedig â hyrwyddo credoau sefydliadau gwleidyddol neu ffydd;
- Unrhyw beth sy'n groes i ddeddfwriaeth neu gyngor Llywodraeth Cymru ar Covid-19;
- Costau wedi’u hariannu drwy ffynonellau eraill o gyllid cyhoeddus;
- Dyled hanesyddol sylweddol (cyn 1 Ebrill 2023);
- Talu am incwm a gollwyd neu ailgynyddu eich cronfeydd wrth gefn;
- Prosiectau sy'n dibynnu ar bobl sy'n gweithio am ddim, neu sy'n annog hynny.

### 1.8 Allbynnau a Chanlyniadau

Bydd y cyllid yn canolbwyntio ar nifer o allbynnau a chanlyniadau, gan gynnwys:

- Gwariant yng Nghymru ar gynhyrchion, gwasanaethau a’r gweithlu
- Yr eiddo deallusol wedi'i greu/ei gadw
- Nifer y swyddi wedi'u eu creu
- Nifer yr unigolion / gweithwyr llawrydd wedi'u cefnogi
- Mynd i’r afael â thangynrychiolaeth yn y sector
- Hyrwyddo’r Gymraeg
- Cynnydd yn lefelau sgiliau
- Rhagor o wariant ar ymchwil a datblygu (masnacheiddio)
- Cyfleoedd ar gyfer gwella cynaliadwyedd
- Rhagor o gyfleoedd ar gyfer criw

Gofynnir i ymgeiswyr ddewis allbynnau perthnasol pan fyddant yn gwneud cais, a bydd y rhain yn cael eu nodi yn y llythyr cynnig.

## 2. Y Broses Hawlio ac Amodau’r Gronfa

### 2.1 Yr Amserlen Hawlio

Gofynnir ichi roi amserlen dalu ar gyfer cyfnod ariannu llawn eich prosiect rhwng Medi 2023 a Mawrth 2025.

Bydd o leiaf tri chyfnod hawlio yn un o amodau **gorfodol** y grant ar gyfer prosiectau sy'n cynnwys hyd at ddwy flynedd ariannol, sef 2023/2024 a 2024/2025, a bydd y

dyddiadau ar gyfer cyflwyno hawliadau'n cael eu hamlinellu yn y llythyr cynnig. Fodd bynnag, gellir cyflwyno hawliadau ychwanegol ar unrhyw adeg yn ogystal ac yn unol â'r terfynau amser penodol hyn. Os bydd angen cyfnodau hawlio ychwanegol arnoch, ychwanegwch nhw at y tabl a ddarperir yn y ffurflen gais.

### Gwneud taliadau a monitro

- Os bydd eich cais yn llwyddiannus, bydd yn rhaid ichi fodloni'r amodau talu a nodir yn yr atodlen i'r llythyr cynnig.
- Bydd y cyllid yn cael ei dalu mewn ôl-daliadau yn ddiofyn. Mewn achosion eithriadol gellir talu cyllid ymlaen llaw, lle y gall ymgeisydd ddangos achos busnes boddhaol.
- Telir hawliadau ôl-weithredol ar ôl i dystiolaeth gael ei darparu ac ar ôl i broffil rhagolygon gwariant a ffurflen hawlio gael eu cwblhau, erbyn diwedd Mawrth 2025 fan bellaf. Telir hawliadau ymlaen llaw bob chwarter yn seiliedig ar gostau a ragwelir a byddant yn cael eu hadolygu bob chwarter am weddill y prosiect. Bydd angen tystiolaeth o wariant ar ddiwedd pob chwarter.
- Bydd cytundeb ar yr amserlen ar gyfer hawliadau a'r proffil gwariant yn cael ei nodi yn y llythyr cynnig. Mae Llywodraeth Cymru yn cadw'r hawl i adolygu dyfarnu'r cyllid os na fodlonir yr amserlenni y cytunwyd arnynt.
- **'Costau wedi'u Talu'** yw cost nwyddau yr ydych wedi talu amdanynt neu wedi eu talu fel arall. Bydd angen tystiolaeth bod costau wedi cael eu talu ar gyfer pob sefydliad p'un a yw hawliadau'n cael eu talu ymlaen llaw neu'n ôl-weithredol.
- Bydd ffurflenni cais yn cael eu rhoi ar gais a gellir eu cyflwyno drwy e-bost i CymorthAriannuCymruGreadigol@llyw.cymru. Bydd angen i brosiectau sy'n cael eu talu'n ôl-weithredol ddarparu tystiolaeth lawn cyn i unrhyw daliadau gael eu gwneud. Bydd manylion yr hyn y mae angen ichi ei ddarparu yn ystod y cam hawlio yn eich llythyr cynnig.
- Ar ôl iddo gael ei gymeradwyo, bydd y taliad yn cael ei wneud o fewn deg diwrnod gwaith.

### Monitro'r Prosiect ar ôl iddo Gael ei Gwblhau

Bydd y gwaith o gwblhau'r prosiect a'r cyflawniadau yn erbyn allbynnau y cytunwyd arnynt yn parhau i gael eu cofnodi am hyd at 24 mis ar ôl i'r prosiect gael ei gwblhau a bydd hynny'n un o amodau'r cynnig.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i werthuso llwyddiant y grant hwn ac mae'n bwriadu cynnal gwerthusiad mewnol o Gronfa Ddatblygu Cymru Greadigol. Rhagwelir y bydd yr ymchwil hon yn archwilio'r gwaith o weithredu'r gweithgareddau sydd wedi cael eu cyflawni a'r effaith maent wedi'i chael. Bydd yn asesu i ba raddau y gellir priodoli'r allbynnau a'r canlyniadau yn uniongyrchol i weithgareddau'r cynllun ac yn archwilio a yw effeithiau ehangach a ragwelwyd neu nas rhagwelwyd wedi cael eu gwireddu.

Mae'n bosibl y bydd Llywodraeth Cymru neu drydydd parti sy'n gweithredu ar ran Llywodraeth Cymru yn cysylltu â chi at ddibenion ymchwil a gwerthuso a/neu i ofyn

am adborth ar eich profiad o'r cynllun. Caiff y wybodaeth hon ei dadansoddi a'i chyflwyno'n ddienw yn unol â'r Hysbysiad Preifatrwydd

**Ad-dalu'r Grant**

Dylai ymgeiswyr nodi ei bod yn bosibl y bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn i'r grant gael ei ad-dalu yn llawn neu'n rhannol os nad yw'r cyllid yn cael ei ddefnyddio at y dibenion a nodir yn y ffurflen gais. Mae'r ymgeisydd yn ymrwymo i gytundeb a bydd hwn yn cael ei orfodi drwy ofyn am dystiolaeth ar ôl i'r grant gael ei ddyfarnu.

### 2.2 Rheoli Cymhorthdal yn y DU

Darperir y cyllid drwy'r Cynllun Cymorth ar gyfer Sector Diwylliannol a Chreadigol Cymru, cynllun cymhorthdal sydd wedi'i gofrestru gan Lywodraeth Cymru o dan y cyfeirnod SC10468. Cynllun Cymorth ar gyfer Sector Diwylliannol a Chreadigol Cymru (WCCSS) | LLYW.CYMRU.

Rhaid ichi sicrhau bod y cyllid yn cael ei ddefnyddio yn unol â'r cytundebau perthnasol yn rheolau Sefydliad Masnach y Byd, Cytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU a'r UE, ac unrhyw Gytundeb Masnach Rydd sy'n cynnwys y DU, Protocol Gogledd Iwerddon ac unrhyw ddeddfwriaeth ddomestig berthnasol.

Fel rhan o'ch cais bydd angen ichi roi manylion unrhyw gyllid y mae eich busnes wedi'i dderbyn yn y gorffennol.

### 2.3 Cyhoeddusrwydd

Bydd angen i bob ymgeisydd llwyddiannus wneud y canlynol:

- Cytuno i gael ei gynnwys yn yr holl gyhoeddusrwydd, datganiadau i'r wasg a deunyddiau marchnata rydym yn eu cynhyrchu.
- Cytuno i gynnwys *Cefnogir gan Gymru Greadigol* yn y rhestr o gydnabyddiaethau, os yw'r prosiect yn cael ei gynhyrchu.

Fel un o amodau'r cyllid, byddwch yn cytuno i ymgymryd â hyd at dair blynedd o gyhoeddusrwydd ar y cyd â Chymru Greadigol, a gofynnir ichi roi cronfa o ddelweddau a fideos, ynghyd â'r hawliau perthnasol, o'r prosiect inni eu defnyddio yn y wasg ac ar gyfer cyhoeddusrwydd. Dylid trafod unrhyw faterion sy'n ymwneud â hyn ag aelod o dîm Cymru Greadigol. Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu hysbysu cyn i ddeunyddiau o'r fath gael eu rhyddhau.

Hoffem ychwanegu ein holl ymgeiswyr at ein cronfa ddata farchnata i sicrhau eich bod yn derbyn gwybodaeth amserol am opsiynau eraill ar gyfer cymorth gan Gymru Greadigol, ond nid yw'r cyllid yn amodol ar hyn.

### 2.4 Y Gymraeg

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i hyrwyddo a thyfu'r Gymraeg. Mae'r diwydiannau creadigol yn chwarae rôl allweddol wrth gyfrannu at flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg a'r targed i weld miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, fel y'u hamlinellir yn y strategaeth Cymraeg 2050. Rydym yn croesawu ceisiadau ar gyfer prosiectau sy'n cefnogi ein huchelgeisiau ac yn cynyddu'r cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg cymaint ag y bo modd. Bydd y ffordd mae prosiect yn cyd-fynd â'n blaenoriaethau ar gyfer y Gymraeg yn un o amrediad o feysydd y byddwn yn eu hystyried wrth asesu a yw prosiect yn cydweddu'n strategol.

Bydd yr ymrwymiadau'n cael eu hamlinellu yn y llythyr dyfarnu cyllid, a bydd angen ichi gytuno arnynt a llofnodi i gadarnhau hynny. Rydym hefyd yn disgwyl i bob postiad yn y cyfryngau cymdeithasol fod yn ddwyieithog. Bydd hyn yn ein galluogi i rannu'r postiadau hyn yn fwy helaeth.

Pan fydd y dibenion yn cynnwys neu'n ymwneud â darparu gwasanaethau yng Nghymru, rhaid iddynt gael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg, oni bai y byddai'n afresymol neu'n anghymesur gwneud hynny. Rhaid iddynt hefyd gael eu darparu mewn ffordd nad yw'r trin y Cymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Pan fydd darparu gwasanaethau'n rhan o'r dibenion, rhaid ichi weithredu'n unol â Mesur y Cymraeg (Cymru) 2011 ac amcanion Cymraeg 2050. Yn ymarferol bydd hyn yn cynnwys y canlynol:

- Sicrhau bod unrhyw ddeunyddiau ysgrifenedig sy'n cael eu cynhyrchu, gan gynnwys deunyddiau digidol, yn ddwyieithog.
- Sicrhau bod unrhyw arwyddion yn ddwyieithog.
- Sicrhau bod unrhyw hyfforddiant neu ddigwyddiadau cyhoeddus yn cael eu cynnal yn ddwyieithog.
- Hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg yn weithredol (gan gynnwys darparu gwasanaethau yn Gymraeg a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg) wrth gynnal gweithgareddau sy'n derbyn cymorth.

Am gyngor cyffredinol ar ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog ac am wybodaeth am sefydliadau sy'n gallu eich helpu, cysylltwch â'r gwasanaeth cyngor ar y Gymraeg "Helo Blod" ar 03000 258888 neu anfonwch eich cwestiwn at heloblod@llyw.cymru.

### 2.5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae amcanion y Ddeddf yn dangos sut y bydd pob corff cyhoeddus yn gweithio i gyflawni'r weledigaeth ar gyfer Cymru a amlinellir yn y 'nodau llesiant'. Mae'r saith nod llesiant yn dangos y Gymru yr hoffem ei gweld. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn glir bod rhaid i'r cyrff cyhoeddus a restrir weithio i gyflawni pob un o'r nodau, nid un neu ddau yn unig. Bydd egluro a chyfeirio at y ffordd mae eich prosiect yn cyflawni'r nodau hyn yn bwysig pan fydd eich cais yn cael ei asesu.

### 2.6 Hysbysiad Preifatrwydd

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi darllen, wedi deall ac yn derbyn y ‘Nodiadau Canllaw’ a’r ‘Hysbysiad Preifatrwydd’ **cyn** dechrau ar eich cais.

Dolen i’r Hysbysiad Preifatrwydd

## Atodiad 1 – Meini Prawf Gwerthuso

Bydd angen i brosiectau fodloni'r egwyddorion ariannu a nodir uchod er mwyn symud i'r ail gam i gael hasesu yn erbyn y meini prawf canlynol:

| *Meini Prawf Arfarnu* | | *Pwysoliad* | *Sgôr* |
|---|---|---|---|
| 1 | **Cydweddu'n strategol**<br>• Cyd-fynd ag egwyddorion cyffredinol y cyllid<br>• A yw eich prosiect yn cynyddu'r manteision i Gymru, gan gynnwys manteision economaidd, cymaint ag y bo modd?<br>• A yw eich prosiect yn cyflawni ein blaenoriaethau ar gyfer y diwydiannau creadigol yng Nghymru?<br>• Cyd-fynd â Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r dyfodol | - | - |
| 2 | **Ansawdd y prosiect**<br>• Meini Prawf Technegol Digidol<br>  ○ Fel y'u disgrifir yn y ddogfen uchod yn adran 1.6<br>• Meini Prawf Technegol Teledu<br>  ○ Fel y'u disgrifir yn y ddogfen uchod yn adran 1.6 | × 20 | /5 |
| 3. | **Tystiolaeth o'r Angen**<br>• Pam mae angen cyllid gan Lywodraeth Cymru er mwyn i'r prosiect hwn fynd yn ei flaen? E.e. pam mae angen cyllid Llywodraeth Cymru arnoch chi? Bydd yn cyflymu'r prosiect, ni fyddai'r prosiect yn bosibl heb gymorth | × 5 | /5 |
| 4. | **Risgiau'r Prosiect a Gweithredu a Chyflawni'r Prosiect**<br>Ansawdd y wybodaeth a roddir ar gyfer:<br>• Cynllun y prosiect, yr amserlen ac adnoddau'r tîm<br>• Strwythur y Tîm Rheoli<br>• Cydweithredu / partneriaid y prosiect<br>• Risgiau'r Prosiect | × 5 | /5 |
| 5. | **Yr hyn y bydd y prosiect yn ei gyflawni**<br>• Ansawdd targedau'r prosiect<br>• Allbynnau a'r hyn a gyflawnir gan y prosiect – defnyddir y rhain i fesur llwyddiant y prosiect<br>• Sgiliau<br>• Canlyniadau ar gyfer amrywiaeth a chynhwysiant<br>• Gwybodaeth fanwl am sut y caiff y rhain eu mesur | × 10 | /5 |
| 6. | **Costau'r Prosiect a Gwerth am Arian**<br>• Mae'r cynnig yn cynnig gwerth am arian yn gyffredinol<br>• Mae'r gweithgareddau a'r costau cysylltiedig yn realistig ac yn cynnig y gwerth gorau<br>• Costau'r prosiect, yr amserlen hawlio<br>• Mae'r manteision disgwyliedig yn gymesur â'r costau<br>• Rhoddir tystiolaeth dda ar gyfer strategaeth ymadael a chynaliadwyedd hirdymor y cynnig<br>• Y gallu i gael effaith ar y sector dros gyfnod hwy | × 10 | /5 |

**Sgôr o gyfanswm o 250**